



**Canllaw 1**

**Cyflwyniad:  
Helpu Eich  
Plentyn i Ddysgu**



**Help your child  
to learn** with  
**Mike Gershon**

# Cyflwyniad

**Chi yw ased mwyaf eich plentyn.**

**Chi.**

**Dywedwch hynny wrthyhych eich hun.**

**A'i ailadrodd.**

**Cofiwch hyn.**

**Dyna'r gwir.**

**Chi yw ased mwyaf eich plentyn.**

**Gadewch i mi ddweud hynny unwaith eto:**

**Chi yw ased mwyaf eich plentyn.**

**Mae gennych** chi wybodaeth a dealltwriaeth o'r byd a sut mae'n gweithio.

**Rydych** chi yn gwybod beth yw iaith a sut i'w defnyddio.

**Mae** eich meddwl yn llawn atgofion, syniadau, geiriau a phrofiadau.

**Roeddech** chi yn blentyn unwaith - rydych yn gwybod sut beth ydyw.

**Gallwch** chi ddefnyddio pethau, gwneud pethau, dadansoddi a newid pethau.

**Gallwch** chi gofio, barnu, dangos ac egluro.

**Gallwch** chi ddatrys problemau, siarad am bethau, cwestiynu pethau a defnyddio eich dychymyg.

Ac nid dyna'r cyfan.

Yn ystod y cwrs hwn, byddaf yn dangos i chi sut i helpu eich plentyn i ddysgu. Nid oes angen i chi fod yn arbenigwr. Nid oes angen i chi fod wedi astudio addysg, seicoleg na datblygiad plant.

Mae'r cwrs hwn wedi'i ysgrifennu i rieni.

Mae'n dangos i chi sut mae defnyddio'r holl bethau sydd gennych eisoes i helpu eich plentyn i ddysgu.

# Trosolwg o'r Cwrs

Mae'r cwrs hwn wedi'i rannu yn ddeg adran. Cyflwyniad yw'r un cyntaf. Yna, mae gennym adrannau yn ymdrin â:

 **Meithrin Dysgu**

 **Adnoddau a Thechnegau Meddwl**

 **Siarad a Gwranddo**

 **Iaith**

 **Chwarae**

 **Mapiau Meddwl**

 **Adrodd Straeon**

 **Meddwl yn Greadigol**

 **Dysgu Gyda'ch Gilydd: Chi a'ch Plentyn**

Ar gyfer pob adran, mae fideos a chanllaw ysgrifenedig. Mae'r fideos yn eich helpu i ddeall pam mae'r maes dysgu hwn yn bwysig. Mae'r canllawiau yn rhoi strategaethau, gweithgareddau a thechnegau ymarferol i chi y gallwch eu defnyddio i helpu eich plentyn i ddysgu.



Chi sydd i benderfynu sut ydych yn defnyddio'r cwrs hwn. Gallwch wyllo'r holl fideos, yna darllen y canllawiau. Neu, gallwch wyllo'r fideos o un adran cyn darllen y canllaw ynghlwm. Fel arall, gallwch ddarllen yr holl ganllawiau yn gyntaf, yna gwyllo'r fideos.

Rwyf wedi trefnu'r cwrs fel ei fod yn llifo o'r dechrau i'r diwedd. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno mynd ymlaen i'r adrannau sy'n sefyll allan i chi, yna mae croeso i chi wneud hynny.

Y peth pwysicaf yw eich bod yn dod o hyd i'r ffordd sy'n gweithio i chi.

# Y Rheolau Aur

Wrth i chi fynd drwy'r cwrs, byddwch yn dod ar draws dwsinau o strategaethau, gweithgareddau a thechnegau y gallwch eu defnyddio i helpu eich plentyn i ddysgu. Gallwch ddefnyddio'r rhain fel y cânt eu disgrifio, neu gallwch eu haddasu, eu diwygio neu eu datblygu fel eu bod wedi'u teilwra i chi a'ch plentyn.

P'un a ydych yn gwyllo'r fideos ar iaith neu'n darllen y canllaw i fapiau meddwl, mae tair rheol aur sy'n sail i bopeth y mae'r cwrs yn edrych arno.

Dyma'r hanfodion. Dyma'r tri pheth syml y mae angen i chi eu cofio i helpu eich plentyn i ddysgu. A'r tebygolrwydd yw eich bod eisoes yn gwybod amdanynt ac eisoes yn eu gwneud. Efallai nad ydych wedi meddwl amdanynt fel hyn.

- 1. Chi yw ased mwyaf eich plentyn.**
- 2. Rhowch dri pheth i'ch plentyn: Cariad, Amser a Chanmoliaeth**
- 3. Gwnewch bedwar peth gyda'ch plentyn: Siarad, Darllen, Chwarae a Gwranddo.**

Dyna'r rheolau aur. Syml!

Mae popeth yn y cwrs hwn wedi'i seilio ar yr egwyddorion hyn.

**Dyma pam eu bod mor bwysig:**

## Rheol Aur Rhif 1

### Chi yw ased mwyaf eich plentyn.

Fel rhiant, mae gennych yr holl adnoddau a phrofiadau wrth law i helpu eich plentyn i ddysgu; i'w arwain, i'w addysgu. Mae cofio mai chi yw ei ased mwyaf, yn golygu cofio eich bod chi'n gallu ei gefnogi, ac yn ei gefnogi, mewn sawl ffordd wahanol, bob dydd o'i fywyd. A thrwy wneud hyn, a meddwl fel hyn, rydych yn gallu ei helpu i ddysgu, ac yn ei helpu i ddysgu.



## Rheol Aur Rhif 2

### Rhowch dri pheth i'ch plentyn: Cariad, Amser a Chanmoliaeth.

**Mae cariad** yn ymwneud â chefnogi, gofalu, meithrin a bod yn garedig. Mae'n ymwneud â haelioni, anwylydeb a chynhesrwydd. Mae'n ymwneud â rhoi rhywun wrth wraidd eich bywyd. Mae'n ymwneud â rhoi, heb ddisgwyl cael dim yn ôl.

**Mae amser** yn rhywbeth sydd gennym. Mae amser yn rhywbeth y gallwn ei roi. Po fwyaf y gallwch ei roi, y mwyaf y gallwch helpu eich plentyn.

**Mae canmoliaeth** yn teimlo'n dda. Mae'n dweud wrthym ein bod yn gwneud y pethau iawn a'n bod yn berson da. Mae'n ein cymell ac yn rhoi rheswm i ni dros lwyddo. Peidiwch byth â thanbriso pŵer canmoliaeth. Mae canmol ymdrechion yn dweud bod ymdrech yn dda. Mae'n dweud wrth eich plentyn y gall ei waith caled ac ymdrech arwain at lwyddiant. Felly yn wir.

## Rheol Aur Rhif 3


### Gwnewch bedwar peth gyda'ch plentyn: Siarad, Darllen, Chwarae a Gwrando

**Siarad.** Geiriau yw ein prif ffordd o gyfathrebu. Maent yn ein caniatáu i ddweud beth sydd ar ein meddwl. Nhw yw ein ffenestr i gymdeithas a diwylliant. Po fwyaf ydych yn siarad â'ch plentyn, po fwyaf ydych yn ei wneud yn ymwybodol o hyn a pho fwyaf ydych yn ei ddysgu am iaith - sut mae geiriau yn swnio, sut y cânt eu defnyddio a sut maent yn ein helpu i gyfathrebu â'r naill a'r llall a gwneud synnwyr o'r byd a'n profiadau ohono.

**Darllen.** Mae darllen â'ch plentyn yr un mor bwysig â siarad. Ewch ati i'w wneud cymaint â phosib. Gwnewch yn hwyl. Gwnewch yn gyffrous. Gwnewch yn wefreiddiol. Os byddwch yn ei fwynhau, bydd eich plentyn hefyd.

**Chwarae.** Chwarae yw un o'r ffyrdd allweddol yr ydym yn dysgu. Mae hyn hyd yn oed yn wir am oedolion. Mae chwarae fel rhoi'r byd dan brawf cyn i ni orfod ei wynebu o ddifrif. Nid yw chwarae bob amser yn gorfod cynnwys chwerthin a chyffro. Gallai chwarae olygu meddwl yn ofalus neu'n ddwys. Mae chwarae hefyd yn ffordd wych o dreulio amser â'ch plentyn.

**Gwrando.** Mae pawb yn hoff o gael pobl yn gwrando arnynt. Pan fyddwch yn gwrando, gwrandewch yn astud. Edrychwch ar eich plentyn. Meddyliwch beth mae'n ei ddweud. Dadansoddwch hyn. Os nad ydych yn sicr beth mae'n ei olygu, gofynnwch gwestiynau. Pan fyddwch yn ymateb, ymatebwch i'r hyn ddaru o ddweud. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn ymateb i beth ydych yn meddwl ddaru o ddweud. Bydd hyn, cymaint ag unrhyw beth arall, yn helpu eich plentyn i ddatblygu.



Pa mor hawdd yw hyn? Cariad, Amser a Chanmoliaeth; gall pawb ohonom roi'r rhain, nid yw hyfforddiant yn ofynnol. Siarad, Darllen, Chwarae a Gwranddo; mae pob un ohonynt yn hwyl – fydd dim o hyn yn waith caled, beth bynnag!

**Cofiwch y rheolau aur. Ac, yn fwy na dim, cofiwch mai chi  
yw ased mwyaf eich plentyn.**

# Teilwra'r Cwrs i Chi a'ch Plentyn

Mae pawb ohonom yn unigolion. Fel rhiant ac fel person, rydych yn wahanol i'ch ffrindiau, yn yr un modd ag y maent yn wahanol i chi. Mae plant yn unigolion. Maent yn wahanol i'r naill a'r llall. Mae gan bawb ohonom bersonoliaethau ac, wrth i ni dyfu, rydym yn cael profiadau gwahanol, yn meddwl am bethau gwahanol ac yn dod i ddeall ein hunain a'r byd mewn ffyrdd gwahanol.



Ar yr un pryd, mae llawer sy'n gyffredin rhyngom. Mae pawb ohonom yn fodau dynol. Rydym yn dysgu mewn ffyrdd tebyg. Rydym yn meddwl a siarad a chwarae â'n gilydd. Rydym yn rhyngweithio. Rydym yn bobl mewn cymdeithas; rydym yn rhan o deuluoedd, cymunedau, diwylliannau a chymdeithasau.

Yn ystod y cwrs hwn, byddaf yn edrych ar ddysgu yn gyffredinol ac yn cyflwyno strategaethau, gweithgareddau a thechnegau y gall bob rhiant eu defnyddio i helpu eu plant i ddysgu.

Ond nid yw'r rhain yn derfynol. Man cychwyn ydynt. Bydd rhoi cynnig arnynt gyda'ch plentyn yn golygu gweld sut maent yn gweithio i'r ddau ohonoch. Weithiau, byddant yn gweithio'n berffaith y tro cyntaf. Dro arall, efallai y bydd angen i chi ymarfer eu defnyddio. Ac weithiau, byddwch yn eu haddasu, eu diwygio a'u newid fel eu bod yn siwtio eich anghenion penodol chi a'ch plentyn.

Enghraifft benodol yma yw oedran. Bydd oedran eich plentyn yn dylanwadu ar sut ydych yn defnyddio, addasu a diwygio'r strategaethau, y gweithgareddau a'r technegau gwahanol. Os yw eich plentyn yn eithaf ifanc, gallech ganolbwyntio ar y rhai mwy syml. Os ydynt fymryn yn hŷn, gallech gymryd rhai o'r strategaethau, gweithgareddau a thechnegau mwy syml a'u gwneud yn fwy cymhleth neu fwy heriol.

Rydych yn adnabod eich plentyn yn well na neb. Felly peidiwch â bod ofn addasu neu ddiwygio'r holl syniadau y byddaf yn eu cyflwyno fel eu bod yn addas ar gyfer eich anghenion chi a'ch plentyn. Edrychwch ar y cwrs fel man cychwyn. Un yr ydych yn teimlo'n rhydd i'w deilwra ac addasu fel ei fod yn gweithio i chi.

A pheidiwch ag anghofio, mae dysgu yn hwyl. Mae'n gyffrous. Mae'n ysgogol. Mae'n heriol a gwerth chweil. Mae'n ymwneud â gweithio ffiniau'r hyn y gallwn ei wneud, yr hyn rydym yn ei wybod a'r hyn rydym yn ei ddeall. Mae'n ymwneud â datblygu a thyfu. Mae'n ymwneud â gwneud synnwyr o'r byd ac ohonom ein hunain.

Felly, pan fyddwch yn helpu eich plentyn i ddysgu, ewch ati i gael hwyl. A pheidiwch â synnu os yw ei helpu i ddysgu yn golygu eich bod chithau hefyd yn dysgu pethau newydd. Wedi'r cyfan, nid yw dysgu byth yn darfod i neb ohonom.



# Helpu Eich Plentyn i Ddysgu: Strategaethau, Gweithgareddau a Thechnegau

## i. Siarad Gyda'n Gilydd

Er mwyn meddwl gyda phobl eraill, mae angen i ni siarad â nhw. Fel rhiant, rydych eisoes yn gwybod pa mor bwysig yw siarad er mwyn helpu eich plentyn i ddysgu. Mae bron pob strategaeth, techneg a gweithgaredd yn y cwrs hwn yn ymwneud â rhyw fath o siarad. Y peth hwn rhyngoch chi a'ch plentyn sy'n eich caniatáu i feddwl gyda'ch gilydd.

Yma, rydym yn edrych ar ddau ddull y gallwch eu defnyddio wrth siarad â'ch plentyn am bwnc penodol. Caiff y ddau eu hegluro isod. Cyn i ni fwrw ati gyda hynny, hoffwn wneud ambell i bwynt sy'n dangos sut mae siarad yn gweithio a pham mae'n bwysig.

**Yn gyntaf, gadewch i ni ystyried ein profiadau ein hunain o siarad.** Profiadau sydd gennym fel oedolion. Byddaf yn rhoi tair enghraifft o fy mywyd fy hun i chi.

- 1.** Pan oeddwn yn penderfynu a ddylwn ymgeisio am swydd newydd ai peidio, siaradais yn helaeth â ffrind. Bu i ni drafod fy opsiynau a'r rhesymau pam oeddwn yn ystyried symud ymlaen. Cyflwynodd syniadau amrywiol i mi, gofynnodd gwestiynau a gwrandawodd ar fy meddyliau. Ar y diwedd, roeddwn yn teimlo'n well o lawer. Roeddwn yn teimlo fy mod yn adnabod fy meddwl fy hun yn fwy clir a fy mod bellach yn gallu gwneud penderfyniad yr oeddwn yn gyfforddus ag ef.
- 2.** Yn ddiweddar, bu i mi gyfarfod ag ychydig o ffrindiau nad oeddwn wedi'u gweld ers sbel. Aethom am swper a diod i'r dafarn leol. Treuliom y noson gyfan yn sgwrsio. Roedd y sgwrs yn amrywio o brofiadau a diddordebau cyffredin, cysylltiadau a oedd gennym yn gyffredin a'r pethau yr oeddem wedi'u gwneud ers gweld ein gilydd ddiwethaf. Roedd yn noson hyfryd. Erbyn y diwedd roedd pawb ohonom yn teimlo'n hapus a bodlon.
- 3.** Beth amser yn ôl, cefais syniad ar gyfer llyfr am addysgu, ymddygiad a seicoleg. Cysylltais â dau o'm ffrindiau sydd â phrofiadau yn y meysydd hyn. Bu i ni gyfarfod a thrafod y cynnig. Yr ymadrodd priodol fyddai bod 'y llyfr wedi dechrau dod at ei gilydd'. Drwy drafod deuthum yn agosach at ddiffinio sut y gallem gydweithio a beth fyddem yn ei gynnwys yn y llyfr.

Ym mhob un o'r enghreifftiau hyn, roeddwn yn gallu meddwl am ffyrdd a fyddai wedi bod yn anodd, os nad amhosib, eu cyflawni ar fy mhen fy hun. Roedd fy meddwl yn rhyngweithio â meddyliau pobl eraill. Drwy siarad roeddem yn cyfathrebu dau beth:

Beth oeddem wedi'i brofi.

Beth oeddem wedi'i greu.



**Roeddem yn gallu creu meddyliau, syniadau a phrofiadau newydd wrth i ni weithio. Ym mhob sefyllfa, roedd pob un ohonom wedi dysgu rhywbeth newydd. Roeddem yn meddu ar bethau, nad oeddem yn meddu arnynt ynghynt - gwybodaeth am beth oedd pobl eraill yn ei feddwl, profiad o'r sgwrs a syniadau a ysgogwyd drwy'r cyfathrebu a ddigwyddodd.**

**Yr ail bwynt yr hoffwn ei wneud am siarad, yw'r prosesau y mae'n galw arnynt.** Yma, ceir rhestr o'r rhai o'r pethau gwahanol yr ydym yn eu gwneud gyda'n meddyliau pan ydym yn siarad:

### **Mewnsyllu.**

Dyma lle'r ydym yn 'edrych i mewn' arnom ein hunain a cheisio canfod beth ydym yn ei feddwl a'i deimlo. Yn aml, byddwn yn gwneud hyn yn awtomatig ond, weithiau, mae'n rhaid i ni wneud ymgais ymwybodol er mwyn ei wneud.

### **Dadansoddi.**

Fel yr uchod. Rydym yn dadansoddi ein geiriau ein hunain a rhai pobl eraill.

### **Amgyffred.**

Rydym yn amgyffred yr hyn a glywn ac fe ddaw'n rhan o'n meddyliau. Dyma pam y gallwn siarad â rhywun, gadael, dychwelyd a pharhau â'r sgwrs. Rydym yn cofio beth ddaru nhw ddweud a gallwn ei ddefnyddio i barhau i siarad â nhw.

### **Asesu.**

Rydym yn asesu ein meddyliau a'n teimladau ein hunain yn ogystal â'r ffordd yr ydym yn dewis eu cyfleu. Rydym hefyd yn asesu'r hyn mae pobl eraill yn ei ddweud.

### **Creu.**

Rydym yn creu brawddegau a darnau estynedig o frawddegau yr ydym yn eu defnyddio i gyfathrebu'r hyn rydym yn ei feddwl. Rydym hefyd yn creu syniadau newydd o ganlyniad i'r sgwrsiau a gawn.

**Gan fod siarad yn dod mor naturiol i ni, a chan ein bod yn ei wneud drwy'r adeg, yn aml, ni fyddwn yn sylwi ein bod yn gwneud y pethau hyn. Drwy dynnu sylw at faint o feddwl sy'n mynd i siarad, hoffwn bwysleisio pa mor bwysig yw ei wneud gyda'ch plentyn.**

**Dyma ddwy fath o drafodaeth y gallwch eu cael gyda'ch plentyn.** Yn ei lyfrau *The Guided Construction of Knowledge* a 'Words and Minds', mae Neil Mercer, Athro Emeritws mewn Addysg ym Mhrifysgol Caergrawnt, yn nodi'r mathau hyn o siarad:

## **Trafodaeth Gronnol.**

Mae trafodaeth gronnol yn gwneud yr union hyn y mae'n ei hawgrymu. Rydych chi a'ch plentyn yn cymryd eich tro i rannu eich meddyliau â'ch gilydd ac mae'r sgwrs yn cronni llawer o sylwadau gwahanol yn raddol. Mae'r math hwn o drafodaeth yn golygu rhoi eich barn a gwranddo ar farn eraill. Er enghraifft, efallai y byddwch yn dechrau siarad â'ch plentyn am ei hoff raglen deledu. Byddai trafodaeth gronnol yn gweld y ddau ohonoch yn cymryd eich tro i ddweud beth oeddech yn ei hoffi am y rhaglen (yn ogystal â rhaglenni eraill, sut oedd yn gwneud i chi deimlo, beth ydych yn ei feddwl ohoni, a pham ydych yn mwynhau ei gwyllo.

**Dyma ffordd arbennig o dda o annog eich plentyn i siarad yn helaeth am yr hyn y mae'n ei feddwl, ei deimlo a'i gredu. Drwy wneud hyn, mae'n elwa ym mhob ffordd a nodir uchod.**

## **Trafodaeth Archwiliol.**

Mae trafodaeth archwiliol yn tueddu i ymwneud â chwestiwn ac yn cynnwys ychydig mwy o her na thrafodaeth gronnol. Mewn trafodaeth archwiliol, efallai y byddwch chi a'ch plentyn yn ceisio ateb cwestiwn penodol neu'n treulio amser yn meddwl amdano'n ofalus (wedi'r cyfan, nid oes gan rai cwestiynau atebion terfynol. Er enghraifft, gallech ofyn: 'Sut wyt ti'n credu y dylem wneud hyn?' neu 'Beth ddylem ei wneud am...?' Y diben yma yw annog eich plentyn i ddadansoddi'r sefyllfa a defnyddio rhesymau, enghreifftiau a'i wybodaeth ei hun i geisio gwneud synnwyr ohoni.

Mewn trafodaeth archwiliol y syniad yw eich bod yn gallu herio'r hyn a ddywedwyd. Mae'n wahanol i drafodaeth gronnol, sy'n broses rannu. Drwy herio, nid wyf yn golygu unrhyw beth cas neu ddadleuol. Yn hytrach, rydw i'n golygu gofyn cwestiynau am yr hyn a ddywedwyd. Mae'n ymwneud â meddwl yn gritigol ac annog eich plentyn i ddatblygu ei syniadau.


**Gallech ddefnyddio rhai o'r mathau o gwestiynau o'r dechneg 'Sgwrs Socratig' yn y canllaw 'Meithrin Dysgu' i'ch helpu gyda hyn.**

Cadwch y mathau hyn o drafodaethau yn y cof a defnyddiwch nhw pan fydd cyfleoedd yn codi. Efallai eich bod eisoes yn eu defnyddio a bod hyn yn rhoi enw ar y mathau o drafodaethau a gewch.

## ii. Chwilio am Atebion

Bob dydd, rydym yn treulio amser yn ateb cwestiynau a chwilio am atebion. Yn aml, down o hyd i'r atebion hyn yn hawdd. Er enghraifft, os yw rhywun yn gofyn i ni faint o'r gloch yw hi ac rydym yn gwisgo oriawr.

Ond eto, mae'n rhaid dysgu prosesau syml fel hyn, hyd yn oed. Nid oes neb ohonom yn cael ein geni yn gwybod beth yw oriawr neu sut mae defnyddio un - yn wir, pan gawn ein geni, ni fyddwn hyd yn oed yn deall beth yw amser. Mae'r holl nosweithiau digwsg hynny y mae'n rhaid i rieni eu goddef yn enghraifft amlwg o hyn.



Gadewch i ni fynd yn ôl i'r cwestiwn: **'Faint o'r gloch yw hi?'**

Meddyliwch pa mor anodd fyddai ateb hyn pe na baech yn gwybod beth yw amser, neu sut mae darllen cloc, neu sut mae disgrifio'r hyn a welwch ar gloc mewn geiriau (chwarter i ddeuddeg neu bum munud ar hugain wedi un ar ddeg?).

Mae'n debyg, na fydddech hyd yn oed yn deall y cwestiwn. Ni fyddai'n gwneud synnwyr. Byddai'n swnio fel rwtsh llwyr. Byddai angen i chi ddysgu ambell i beth gwahanol, o leiaf, cyn y gallech ddechrau gwneud synnwyr ohono.

Nawr, beth pe bai'r cwestiwn yn fwy cymhleth neu'n llai amlwg?

Bydd plant yn wynebu'r mathau hyn o gwestiynau drwy'r adeg wrthynt dyfu'n hŷn a mynd ati i feddwl am y byd:

**Pam mae'r awyr yn las?**

**Pam mae planhigion yn tyfu?**

**Beth sy'n atal cymylau rhag disgyn i'r ddaear?**

Wrth iddynt dyfu'n hŷn, bydd mathau eraill o gwestiynau yn codi:

**Pam mae rhai pobl yn gyfoethog a phobl eraill yn dlawd?**

**Sut mae ceir yn gweithio?**

**Beth yw'r peth iawn i'w wneud yn y sefyllfa hon?**

Yr hyn sy'n eu gwneud yn debyg i'r cwestiwn 'Faint o'r gloch yw hi?' yw bod pob un ohonynt yn seiliedig ar fod eisiau gwybod. Dyhead i ddeall, i ddod o hyd i ystyr.

Mae pob un ohonynt yn ymwneud â llenwi'r bylchau.

Os yw rhywun yn gofyn y cwestiwn 'Faint o'r gloch yw hi?' gallwn dybio eu bod yn gwybod beth yw amser a sut y gallai rhywun ddweud yr amser.

Yr hyn maent eisiau ei wybod yw faint o'r gloch yw hi ar hyn o bryd. Maent eisiau llenwi'r bwlch yn eu gwybodaeth. Maent eisiau ychwanegu at yr hyn y maent eisoes yn ei wybod. Maent eisiau deall mwy.

**Mae plant yn union yr un fath. Mae ganddynt ychydig o wybodaeth am y byd - bod yr awyr yn edrych yn las, er enghraifft - ac maent eisiau gwybod pam. Maent eisiau llenwi'r bylchau yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain.**

Mae rhieni yn amlwg fel ffynonellau gwybodaeth ym meddwl plentyn - yn union fel athrawon pan fyddant yn yr ysgol. Mae oedolion yn ymddangos yn dawel eu meddwl yn y byd; maent yn annibynnol a gallant wneud beth a fyddant (neu felly mae'n ymddangos). Yn naturiol, mae plant yn cyfeirio cwestiynau atynt, gan dybio y byddant yn llwyddo i gael ateb yn gyflym fel hyn. Yn aml, bydd hynny'n wir.

**Opsiwn arall i ateb holl gwestiynau eich plentyn, er hynny, yw os gallwch ddangos iddo sut mae dod o hyd i atebion ei hun. Mae hyn yn helpu i ddatblygu hyder a synnwyr o weithredu. Mae'n ei helpu i deimlo'n annibynnol. Ac mae'n rhoi sgiliau y gall ei ddefnyddio mewn nifer o sefyllfaedd eraill.**

Wrth gwrs, nid yw hyn yn awgrymu y dylech wrthod ateb cwestiynau eich plentyn. Mae cael rhieni i ateb cwestiynau, rhannu gwybodaeth a siarad am y byd yn gwbl hanfodol i ddatblygiad unrhyw blentyn. Mae'r dull hwn yn opsiwn arall. Mae'n rhoi opsiwn newydd i'ch plentyn. Dyma sut mae'n gweithio:

Mae creu **cornel gyfeirio** yn eich cartref yn fan cychwyn da. Bydd geiriadur, thesawrws, atlas a gwyddoniadur sy'n addas i blant i gyd yn ddefnyddiol (ac yn para'n hir. Os oes gennych gyfrifiadur neu lechen ac mae eich plentyn yn gallu ei ddefnyddio, yna mae ymchwilio i safleoedd sy'n briodol i oed a'u cadw yn eu ffefrynnau yn syniad da hefyd. Gallech hyd yn oed addurno'r ardal, defnyddio posterï neu luniau o bobl, lleoedd a syniadau, o bosib.

I ddechrau arni, dylech ddangos sut i ddod o hyd i ateb i gwestiynau eich plentyn. Mynd i'r gornel gyfeirio a dangos sut mae defnyddio'r adnoddau yno. Efallai y bydd cydweithio yn mynd ymlaen am gyfnod hir, neu efallai y bydd eich plentyn yn cymryd drosodd yn gymharol gynnar. Naill ffordd, mae cynnydd da yn cael ei wneud i'w helpu i ddysgu am y byd a sut mae ateb cwestiynau.

Pan fydd eich plentyn wedi dod o hyd i ateb ar ei ben ei hun, gofynnwch iddo ddod i ddweud wrthy ch beth ydyw a'i egluro i chi. Yna, gallwch drafod. Bydd y sgwrs hon yn achosi i'ch plentyn feddwl ymhellach am yr hyn y mae wedi'i ddarganfod. Bydd hefyd yn ei annog

i drin yr wybodaeth yn ei feddwl. Mae hyn yn ei helpu i'w deall yn well a'i chofio yn fwy rhwydd.

Efallai yr hoffech gofnodi'r holl gwestiynau a'r atebion y daw eich plentyn o hyd iddynt ar ddarn o bapur neu mewn llyfr cofnodi. Bydd hyn yn rhywbeth braf y gall y ddau ohonoch edrych yn ôl drwyddo, ac i chi a'ch plentyn siarad amdano, ar adegau amrywiol yn y dyfodol.

Os yw eich plentyn yn hŷn, efallai na fydd cornel gyfeirio benodol yn angenrheidiol. Yn hytrach, gallech gael adran o'ch silffoedd llyfrau sy'n cynnwys deunyddiau cyfeirio priodol i oedran. Neu, gallai eich plentyn chwilio am yr atebion i'w cwestiynau ar-lein.

### **Mae dwy ffordd o ddatblygu'r gweithgaredd i blant hŷn isod.**

#### **Yn gyntaf**

Gallwch chi a'ch plentyn chwilio am yr ateb ar yr un pryd. Golyga hyn y gall y ddau ohonoch rannu eich atebion i weld a ydynt yr un fath neu'n wahanol. Mae hefyd yn golygu y gallwch wirio a yw eich plentyn wedi dod o hyd i atebion sy'n berthnasol.

#### **Yn ail**

Gall eich plentyn chwilio am yr ateb yn annibynnol, dod â'r ateb i chi ac yna gall y ddau ohonoch drafod. Yn yr enghraifft hon, rydych chi a'ch plentyn yn canolbwyntio ar archwilio a dadansoddi'r ateb y dânt o hyd iddo. Byddwch yn gweld ei fod yn fwy annibynnol os yw'n hŷn.

### iii. Ymarfer Gweithredol

Mae ymarfer ac ailadrodd yn agweddau allweddol ar ddysgu. Pan rydym yn ymarfer ac yn ailadrodd pethau rydym yn dod yn fwy cyfarwydd â nhw. Mae rhan o hyn yn ein gweld yn trosglwyddo gwybodaeth o'n cof tymor byr (cof gweithiol i'n cof hirdymor).

Mae ymarfer parhaus yn helpu i atgyfnerthu ein hatgofion hirdymor, gan eu gwneud yn fwy cryf a hawdd eu defnyddio.

Mae'r un peth yn wir am gof y corff. Meddyliwch sut mae ymarfer rhywbeth yn helpu'r broses honno, dros amser, i ddod yn awtomatig. Enghraifft glasurol yw cau careiau esgidiau. Pan fydd plentyn yn dysgu i gau careiau esgidiau am y tro cyntaf, bydd rhaid iddo feddwl yn galed am yr hyn y mae'n ei wneud. Dros amser, wrth ymarfer, ni fydd rhaid iddo feddwl am y broses i'r un graddau. Yn y pen draw, bydd yn gallu cau ei gareiau yn awtomatig, heb orfod meddwl amdano.

#### **Beth am edrych ar enghreifftiau eraill sy'n dangos pwysigrwydd ymarfer.**

Pan fydd plant ifanc yn dysgu eu tablau llusoi, byddant yn aml yn gwneud hyn drwy ddysgu ar y cof. Mae dysgu ar y cof yn fath penodol o ymarfer. Mae'n ymwneud â'r plentyn yn ailadrodd yr un pethau drosodd a throsodd. Y nod yw ei helpu i fewnoli'r wybodaeth ac felly ei chofio. Rwy'n siŵr y cawsoch y mathau hyn o brofiadau pan oeddech yn yr ysgol. Efallai yn unigol, mewn grwpiau, neu fel dosbarth cyfan, roeddech yn llafarganu tablau llusoi mewn modd rhythmig.

Mae dysgu ar y cof yn fuddiol mewn rhai amgylchiadau, ond gall fod yn ddiflas ac yn ddiffiach. Yn ogystal, gall dysgu ar y cof ein gweld yn cofio gwybodaeth heb wir ei deall.

Ond nid oes rhaid i ymarfer ac ailadrodd fod yn ddiflas neu'n ddiffiach. Er enghraifft, gallai hyfforddwr pêl-droed osod ymarfer cylchol o bum dril pasio i'w chwaraewyr. Mae pob dril yn cynnwys amrywiad bach ar y brif dechneg sy'n cael ei hymarfer - sef pasio'n gywir dros bellter bach. Mae chwaraewyr yn gweithio mewn paru ac yn treulio chwe deg eiliad ar bob dril cyn symud ymlaen. Maent yn gwneud pob dril tair gwaith, gan olygu bod y gweithgaredd cyfan yn para oddeutu chwarter awr.



Yn yr enghraifft hon, mae chwaraewyr yn cymryd rhan mewn cyfres o brosesau ailadroddus, sy'n ceisio eu helpu i ymgorffori cof y corff sy'n ofynnol i basio'r bêl dros bellter bach yn gywir (rhywbeth y bydd arnynt ei angen er mwyn llwyddo yn y gêm). Fodd bynnag, mae'r ailadrodd yn fwy diddorol a difyr drwy ddefnyddio pum amrywiad ar yr un dril. Mae hyn yn creu teimlad o fod yn ddeinamig ym mhob gweithgaredd ac mae'n golygu bod yr her yn newid mymryn bob tro mae pâr yn newid o un amrywiad i'r nesaf.



Fel enghraifft olaf o'r rôl y mae ymarfer ac ailadrodd yn ei chwarae mewn dysgu, dychmygwch eich bod chi a'ch plentyn yn trafod ystyr gair newydd, gan gynnwys sut y gellir ei ddefnyddio. Rhan o'r drafodaeth yw ymarfer ar lafar. Dyma lle'r ydym yn ymarfer ein meddyliau. Rydym yn ymarfer ar lafar ein meddwl drwy ailadrodd ein syniadau mewn ffyrdd gwahanol. Mae hyn yn ein helpu i ddod yn fwy cyfarwydd â nhw.

Wrth i chi a'ch plentyn drafod y gair newydd, mae eich plentyn yn defnyddio'r gair drosodd a throsodd. Mae'n ymarfer ei ynganu ac yn ymarfer ei ddefnyddio mewn brawddegau gwahanol.

Yn ogystal, mae eich plentyn yn eich clywed yn defnyddio'r gair. Mae'n eich clywed yn egluro ystyr y gair. A thrwy hyn, mae'n ymarfer gwneud synnwyr o'r hyn rydych yn ei ddweud.

Drwy'r ymarfer a'r ailadrodd hwn, sy'n ymdrin â siarad a gwrando, maent yn dod yn fwy cyfarwydd â'r gair, gan ei drosglwyddo o'u cof tymor byr i'w cof hirdymor. Ac felly maent yn dysgu, gan ddatblygu eu gwybodaeth o iaith.

Yn y tair enghraifft yma rydym yn gweld ailadrodd ac ymarfer yn ffurfio'r sail ar gyfer dysgu, ond mewn gwahanol ffyrdd.

### **Pwynt olaf i'w nodi yw'r gwahaniaeth rhwng ymarfer goddefol ac ymarfer gweithredol.**



**Ymarfer  
Goddefol**

Dysgu ar y cof  
Trefn  
Gofyn am lai o ganolbwyntio  
gennyh  
Amhenodol



**Ymarfer  
Gweithredol**

Rhyngweithiol  
Creadigol  
Gofyn am ymgysylltiad llawn  
gennyh  
Penodol

Ymarfer goddefol yw pan rydym yn ymarfer gwneud rhywbeth ond nid ydym wir yn meddwl am beth ydym yn ei wneud. Rydym yn mynd drwy'r camau. Rydym yn gwylio'r cloc. Rydym yn cyfrif yr eiliadau tan y gallwn orffen ac yna'n dweud 'Reit, dyna ddigon'.

Ymarfer gweithredol yw lle'r ydym yn ymwneud yn llwyr â'r hyn rydym yn ei ymarfer. Rydym yn meddwl amdano wrth i ni ei wneud. Rydym yn canolbwyntio. Mae ein sylw wedi'i hoelio. Mae ein sylw ar yr un peth yr ydym yn ei ymarfer.

Mae hyn yn fwy buddiol nag ymarfer goddefol. Mae canolbwyntio ar beth ydych yn ei wneud wrth i chi ymarfer fel rheol yn arwain at fwy o ddysgu na phe baech ddim yn canolbwyntio, neu os ydych yn meddwl am rhywbeth arall wrth i chi fynd drwy'r camau.



Mae ymarfer gweithredol yn syniad y gallwch ei gynnwys yn eich gweithgareddau gyda'ch plentyn ac y gallwch siarad amdano efo fo, a'i helpu i ddeall beth mae'n ei olygu.



Mae llawer o'r strategaethau, gweithgareddau a thechnegau drwy'r cwrs hwn yn cynnwys ffyrdd creadigol y gallwch helpu eich plentyn i'w hymarfer yn weithredol - p'un a yw hynny'n golygu cymhwyso gwybodaeth newydd, neu ymarfer ffyrdd gwahanol o feddwl.

**Felly wrth i chi ddarllen ymlaen, cofiwch fod ymarfer ac ailadrodd yn agweddau allweddol ar ddysgu a bod ymarfer gweithredol yn well nag ymarfer goddefol.**

## iv. Mae Camgymeriadau yn Iawn!

Mae dysgu yn golygu gwneud camgymeriadau. Rydych yn gwybod hyn cystal â minnau. Mae unrhyw un sydd wedi dysgu rhywbeth o'r blaen yn gwybod hyn. Nid yw'n bosib mynd drwy fywyd a dysgu popeth yn berffaith, y tro cyntaf. A phe baech wedi cael y profiad hwnnw, a fydech yn gallu dweud eich bod wedi cael eich herio? Eich bod wedi gwthio eich hun i fynd y tu hwnt i'r hyn y gallech ei wneud eisoes?

Byddwn yn dadlau mai pan gawn ein herio, yr ydym yn aml yn gwneud camgymeriadau. Neu, rydym yn mynd drwy broses cynnig a gwella, hyd nes y down o hyd i'r ffordd orau o ymateb i'r her.

**Mae llawer o blant, ar ryw adeg yn eu bywydau, yn dechrau gweld camgymeriadau mewn golau gwael. Maent yn dechrau cysylltu gwneud camgymeriadau â methu, ac o ganlyniad, gallant deimlo'n llai parod i wynebu heriau, gwthio eu hunain, neu risgio gwneud camgymeriadau yn eu dysgu.**



Mae'n biti mawr pan mae hyn yn digwydd, oherwydd mae'r plentyn yn cael llai o bleser wrth ddysgu. Os yw eich plentyn yn ofni gwneud camgymeriadau a chael pethau'n anghywir, gall hyn ddylanwadu ar ei ddysgu. Er enghraifft, gall weld ei hun yn wynebu her ac, yn hytrach na gweld y potensial ar gyfer dysgu, mae'n gweld yr ochr negyddol ar fethu cyflawni'r her a'r problemau all godi os yw'n rhoi cynnig arni a bod pethau'n mynd o chwith.

Mae sawl ffordd y gallwch helpu eich plentyn i weld camgymeriadau mewn ffordd bositif.

Drwy wneud hyn, rydych yn ei helpu i gydnabod bod camgymeriadau yn bwysig ac yn siŵr o ddigwydd wrth ddysgu. Ond, hefyd, bod camgymeriadau bron bob amser yn gyfle gwych i ddysgu. Wedi'r cyfan, pan rydym yn gwneud camgymeriad mae gennym gyfle i ddod o hyd i pam y digwyddodd y camgymeriad, ac i feddwl yn ofalus am beth y gallem ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.

**Yma mae pum techneg y gallwch eu defnyddio i weld camgymeriadau mewn ffordd bositif a helpu eich plentyn i weld camgymeriadau fel rhan gyffredin o ddysgu:**



## 1. Camgymeriadau Da vs Camgymeriadau Diofal.

Nid yw pob camgymeriad yn gydradd. Mae rhai camgymeriadau yn fwy defnyddiol nac eraill. Mae rhai camgymeriadau y gallwn ddysgu ohonynt, a rhai camgymeriadau yr ydym yn eu gwneud am nad oeddem yn talu sylw. Camgymeriadau da yw'r camgymeriadau y gallwn ddysgu ohonynt. Camgymeriadau diofal yw'r camgymeriadau y gallwn eu datrys ein hunain drwy dalu mwy o sylw i'r hyn rydym yn ei wneud. Daw camgymeriadau da pan fyddwch yn dysgu rhywbeth, ceisio'n galed a gweld beth sy'n digwydd. Gallwch siarad â'ch plentyn am y syniad hwn a'i helpu i ddeall y gwahaniaeth rhwng camgymeriadau da a chamgymeriadau diofal. Gallwch rannu camgymeriadau da yr ydych wedi'u gwneud a dysgu ohonynt. Gallech hyd yn oed greu wal camgymeriadau da lle'r ydych yn cofnodi'r camgymeriadau da yr ydych chi a'ch plentyn yn eu gwneud yn ystod yr wythnos, mis neu fwy, gan gynnwys y dysgu y mae pob un yn ei ysbrydoli.



## 2. Straeon Camgymeriadau Da.

Mae sawl enghraifft o bobl, gwir a ffuglen, sydd wedi dysgu o'u camgymeriadau. Er enghraifft, yn ôl y sôn aeth Thomas Edison drwy'r broses cynnig a gwella 10,000 o weithiau cyn mireinio'r dyluniad o'i fwlb golau. Aeth y bwlb golau ymlaen i chwarae rhan fawr ym mywydau pobl ar draws y byd. Ni roddodd Edison y ffidil yn y to pan aeth pethau o chwith. Yn hytrach, defnyddiodd ei gamgymeriadau fel cyfle dysgu. Gallwch siarad â'ch plentyn am straeon fel y rhain a'u defnyddio i ddangos bod camgymeriadau yn rhan gyffredin o ddysgu. Opsiwn arall yw defnyddio straeon ffuglen, neu rannu eich profiadau eich hun o wneud camgymeriadau. Er enghraifft, gallech dyrchu am eich llyfrau ysgol a dangos i'ch plentyn y gwnaethoch sawl camgymeriad pan oeddech yn yr ysgol, ond bod y camgymeriadau hyn wedi eich helpu i ddysgu.



## 3. Modelu Sut i Ymateb i Gamgymeriadau.

Rydych yn fodel i'ch plentyn. Maent yn sylwi ar eich ymddygiad ac yn gwranddo ar eich iaith. Maent yn amgyffred yr hyn a welant ac a glywant. Mae'n dod yn rhan ohonynt ac yn eu helpu i ddatblygu eu hymddygiad eu hunain a defnyddio o iaith. Os ydych yn modelu sut i ymateb yn gadarnhaol i gamgymeriadau a heriau, rydych yn rhoi esiampl i'ch plentyn y gallant ei dilyn ei hun.



## 4. Edrych ar Gamgymeriadau Gyda'ch Gilydd.

Gallwch chi a'ch plentyn eistedd gyda'ch gilydd ac edrych ar gamgymeriadau fel tîm. Ar gyfer plant ifanc iawn, gallai hyn olygu eistedd i lawr a siarad am gamgymeriad a wnaeth cymeriad mewn llyfr stori. Gall

y ddau ohonoch feddwl gyda'ch gilydd pam y digwyddodd y camgymeriad a beth mae'r cymeriad wedi'i ddysgu o ganlyniad. Dyma gyfle da i atgyfnerthu'r syniad bod camgymeriadau yn rhan gyffredin, a defnyddiol, o ddysgu. Gyda phlentyn hŷn, gallech eistedd i lawr ac archwilio camgymeriad y mae wedi'i wneud yn ei waith ysgol. Gall y ddau ohonoch drafod beth ddigwyddodd, beth achosodd y camgymeriad a beth y gellir ei ddysgu ohono. Drwy'r drafodaeth hon, gallwch unwaith eto fodelu ar gyfer eich plentyn sut i weld camgymeriadau fel rhywbeth defnyddiol, o'i gymharu â rhywbeth negyddol y dylid ei osgoi.



## 5. Gweithgareddau Treialu a Gwella.

Gallwch chi a'ch plentyn wneud gweithgaredd gyda'ch gilydd sy'n ymwneud â chynnig a gwella. Er enghraifft, gallech benderfynu eich bod eisiau gollwng wŷ o ffenestr llawr cyntaf, wrth geisio sicrhau ei fod yn glanio'n ddiogel, heb dorri. Gyda'ch gilydd, bydd angen i chi adeiladu rhyw fath o lestr neu barasiwt a fydd yn atal yr wŷ rhag torri pan mae'n glanio. Dyma gyfle gwych ar gyfer cynnig a gwella. Mae'n debyg y bydd angen i chi fynd drwy nifer o dreialon gwahanol cyn i chi fireinio dyluniad sy'n gweithio. Mae pob ymgais sy'n methu yn gyfle i ddysgu. Drwy weithgareddau fel hyn gallwch ddangos i'ch plentyn sut mae dysgu o gamgymeriadau yn beth da a'i helpu i weld y dysgu mewn ffordd bositif.

## v. Penagored

**Faint o'r  
gloch yw hi?**

**A ddylem fynd  
i'r chwith neu'r  
dde?**

**Faint oed  
ydych chi?**

Mae cwestiynau caeëdig yn cyfyngu ar yr atebion y gallwch eu rhoi. Yma gallem ddweud: hanner awr wedi deg, y dde, a meindiwch eich busnes! Mae'r cwestiynau hyn yn ategu nifer o dasgau eraill yr ydym yn gofyn i bobl eu gwneud: rho'r golch ymlaen; dos â fi i'r siopau; plicia'r tatws tra dw i'n torri'r moron.

Yn amlwg, mae'r mathau hyn o gwestiynau a cheisiadau yn ddefnyddiol iawn. Rydym eisoes yn gwybod llawer am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn y sefyllfaoedd hyn (rydym yn gwybod ei fod bob amser yn amser penodol, rydym yn gwybod y gallwch fynd i'r dde neu'r chwith ar droad, ac rydym yn gwybod mai oedran person yw'r nifer o flynyddoedd y maent wedi byw) ac felly mae cyfyngu ar yr opsiynau yn syml ac, yn aml, yn angenrheidiol. Byddai'n ymddangos braidd yn wirion dweud 'delia gyda'r tatws pa bynnag ffordd sy'n ymddangos fwyaf priodol'.

**Pan mae cwestiwn yn agored, nid oes dim i gyfyngu ar yr ateb y gall rhywun ei roi:**

- **Beth fyddai'r ffordd orau o ddelio gyda hyn?**
- **Beth yw eich meddyliau am hyn?**
- **Sut y gallem gyflawni ein nod?**

Mae cwestiynau agored yn annog pobl i feddwl, rhoi cynnig ar opsiynau eraill, a bod yn greadigol. Maent yn rhoi cyfle i bobl feddwl am ymatebion gwahanol, arloesol. Maent yn caniatáu i bobl ateb mewn ffyrdd sy'n bersonol ac yn ystyried eu gwybodaeth a'u profiadau eu hunain.


Mae deall y gwahaniaethau rhwng cwestiynau agored a chaeëdig yn golygu y gallwch helpu eich plentyn i ddysgu mewn dwy ffordd benodol.

Yn gyntaf, gofynnwch gwestiynau penagored i'ch plentyn lle bo'n bosib. Mae gwneud hyn yn golygu eu hannog i feddwl yn ofalus ac adeiladu atebion hirach, mwy cymhleth na phe baech yn gofyn cwestiynau caeëdig yn unig. Yn ogystal, rydych yn dangos i'ch plentyn ei bod yn bwysig meddwl drosoch eich hun, archwilio syniadau a bod yn greadigol.


Drwy adael cwestiynau yn agored, rydych yn rhoi'r cyfrifoldeb ar eich plentyn i ddewis sut i ateb. Mae hyn yn hytrach na rhoi ystod fechan o atebion iddynt y gallant ddewis o'u plith (er enghraifft, a dyma'r achos gyda nifer o gwestiynau caeëdig: ie, na neu efallai).

## Cyngor doeth yw defnyddio'r gair 'gallai'.

Er enghraifft:



yn dod yn...



Yn yr ail gwestiwn, rydych yn annog yn weithredol eich plentyn i feddwl, yn hytrach na cheisio dyfalu ateb cywir.

Gadewch i ni edrych ar ddwy sgwrs ddychmygol sy'n dangos y dylanwad y gall y gair bach 'gallai' ei gael ar sut ydych chi a'ch plentyn yn siarad gyda'ch gilydd:

### Sgwrs 1.

**Rhiant:** Pam wyt ti'n credu bod dail yn wyrdd?

**Plentyn:** Oherwydd mae gwyrdd yn lliw da i anifeiliaid guddio ynddo.

**Rhiant:** lawn, ond y gwir reswm yw...

### Sgwrs 2.

**Rhiant:** Pam y gallai dail fod yn wyrdd?

**Plentyn:** Oherwydd mae gwyrdd yn lliw da i anifeiliaid guddio ynddo.

**Rhiant:** Hmm, diddorol iawn. Pam arall y gallai dail fod yn wyrdd?

**Plentyn:** Efallai achos bod glaswellt yn wyrdd hefyd ac mae angen iddynt ffitio i mewn.

**Rhiant:** Pam y gallai fod angen iddynt ffitio i mewn?

Os ydych yn defnyddio'r gair 'gallai' - os ydych yn cadw eich cwestiynau yn agored - rydych yn rhoi cyfle i'ch plentyn archwilio ei syniadau, meddwl am atebion gwahanol a rhoi rhesymau gwahanol. Mae hyn yn tueddu i greu deialog cyfoethocach. Mae'n ysgogi mwy o feddwl ac, o ganlyniad, mwy o ddysgu.



Yr ail ffordd y gallwch ddefnyddio eich dealltwriaeth o gwestiynau agored i helpu eich plentyn i ddysgu yw drwy ei chymhwyso i weithgareddau. **Rhowch dasgau neu heriau penagored i'ch plentyn eu cwblhau. Er enghraifft:**



1.

Rhowch wahanol ddefnyddiau iddo (bocsys cardfwrdd, papurau newydd, cartonau, poteli plastig) a gofynnwch iddo adeiladu rhywbeth (er enghraifft, castell), ym mha bynnag ffordd y mae'n credu sydd orau. Neu, i fod yn benagored iawn, gofynnwch iddo wneud beth bynnag a fynno!

2.

Gofynnwch gwestiynau megis: A elli di ddyfeisio gêm y gallem ei chwarae yn y car pan ydym yn mynd ar ein taith hir nesaf? Gall y gêm ymwneud ag unrhyw beth y gelli feddwl amdano.

3.

Neu: Mae bwllch yn amserlen y teledu: sut fath o sioe deledu newydd a allai lenwi'r bwllch?

Mae'r rhain yn llawer o hwyl, ac hefyd yn rhoi cyfle i'ch plentyn feddwl yn greadigol, arbrofi, a chysylltu syniadau gwahanol gyda'i gilydd; sydd oll yn bethau gwerth chweil iawn i'w gwneud.



## vi. Canmol Ymdrech

Dyma nodyn i'ch atgoffa o rywbeth o'r cyflwyniad:

### **Rheol Aur Rhif 2**

### **Rhowch dri pheth i'ch plentyn: Cariad, Amser a Chanmoliaeth.**

Rydym wedi dweud bod canmoliaeth yn bwysig oherwydd mae'n dangos i'ch plentyn eich bod yn cydnabod y pethau da maent wedi'u gwneud. Mae canmoliaeth yn atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol ac yn anfon signal i'ch plentyn bod yr hyn y maent yn ei wneud yn dda ac y dylent ddal ati i'w wneud. Agwedd arall ar hyn yw bod canmoliaeth yn dangos i'ch plentyn eich bod yn ymwybodol ohonynt a'r hyn maent yn ei wneud. Mae'n rhoi cadarnhad ac yn cryfhau eich perthynas. Mae canmoliaeth yn gwneud i ni deimlo'n dda; mae'n ysgogol. Mae canmoliaeth yn dangos bod ein gweithredoedd wedi cael eu cydnabod. Mae'n rhoi hyder a chred i ni. Mae'n ein cysylltu â'r naill a'r llall.

**O safbwynt dysgu, un peth i feddwl amdano yw sut i ganmol eich plentyn. Gall ddweud pethau fel 'Rwyf ti'n athrylith', 'Rwyf ti mor benig', 'Ond dwyt ti'n glyfar?' arwain yn anfwriadol at bethau.**



Mae'r bwriad yn dda tu ôl i ddweud yr holl bethau hyn. Fodd bynnag, os yw eich plentyn yn clywed y negeseuon hyn droeon, efallai y bydd yn dechrau credu ei fod wir yn athrylith, y cafodd ei eni'n benig, neu fod popeth a wna yn glyfar. Os ydynt yn dechrau credu hyn, y risg yw y bydd yn ei chael hi'n anodd cymell ei hun pan aiff pethau'n anodd - pan mae'r dysgu yn symud ymlaen i'r lefel nesaf.

Er enghraifft, dychmygwch fod rhiant wedi dweud droeon wrth ei blentyn ei fod yn athrylith. Roedd y bwriad tu ôl i ddweud hyn yn dda. Ond, efallai fod y plentyn yn clywed y neges mor aml hyd nes ei fod yn dechrau ei chredu. Beth ydym yn ei ddisgwyl o athrylith? Rydym yn disgwyl eu bod yn gallu gwneud pethau'n ddi-ymdrech, heb orfod ymdrechu. Mae eu hathrylith yn eu rhoi ben ac ysgwydd uwchben eraill, gan sicrhau eu bod bob amser yn llwyddiannus oherwydd pwy ydynt.

Felly beth sy'n digwydd pan ddaw'r plentyn hwn ar draws her? Efallai y byddant yn wynebu'r her, yn cael trafferth, ac yn llwyddo yn y pen draw. Neu, efallai y byddant yn rhoi'r ffidil yn y to. Pam? Oherwydd maent wedi dod i gredu eu bod yn athrylith ac felly, o ganlyniad, dylent

allu gwneud pethau y tro cyntaf, yn berffaith. Os na allant, nid oes pwrpas trio.

Dyma enghraifft sy'n eithafol yn fwriadol, ond rydych yn gweld y pwynt rwy'n ceisio ei wneud. Gall y negeseuon y mae plentyn yn eu clywed, ddylanwadu ar sut mae'n gweld ei hun.

## Felly, beth yw'r opsiwn arall?

Wel, beth am i ni feddwl am pam mae plant, ac oedolion, o ran hynny, yn llwyddiannus. Sut mae plant yn dysgu? Sut mae oedolion yn dysgu? Sut maent yn llwyddo gyda'u dysgu?

Mae'r ateb yn syml. **Maent yn gwneud pethau. Maent yn gwneud dewisiadau.**

A'r dewis rhwyddaf y gall unrhyw un ohonom ei wneud erioed a fydd yn ein helpu gyda pha bynnag ddysgu rydym yn ceisio ei wneud, yw'r dewis i roi'r ymdrech i mewn.

Mae canmol ymdrechion yn golygu tynnu sylw at y ffaith bod eich plentyn wedi gweithio'n galed. Mae'n golygu atgyfnerthu'n gadarnhaol yn ei feddwl y cysylltiad rhwng ceisio a dysgu. Mae'n golygu helpu eich plentyn i ddeall mai'r dewisiadau a wna, a'r ymdrech a wna yw'r hyn sy'n ei helpu i lwyddo. Nid yw llwyddiant yn dibynnu ar bwy ydych chi, ond yr hyn a wnewch chi.

Felly mae'r dechneg hon un y gallwch ei hychwanegu at eich Rheol Aur Rhif Dau.

Pan fyddwch yn canmol eich plentyn, opsiwn un yw canolbwyntio ar ganmol ymdrech y plentyn i ddysgu. Bydd hyn yn atgyfnerthu'n gadarnhaol, a'i annog i barhau i ymdrechu yn y dyfodol. Mae'n helpu i wneud cysylltiad ym meddwl eich plentyn nad yw bod yn llwyddiannus mewn bywyd, boed hynny gyda dysgu neu unrhyw beth arall, yn ymwneud â phwy ydych, ond gyda'r pethau a'r penderfyniadau a wnewch chi.

